
Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015

Adroddiad 5-mlynedd
Comisiynydd y Gymraeg
Crynodeb



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

The Position of the Welsh Language 2012–2015

Welsh Language Commissioner's
5-year Report
Summary



Cynnwys Contents

1

Rhagair	02
Foreword	03
Adroddiadau 5-mlynedd	08
5-year reports	09
Crynodeb	12
Summary	13
Prif ganfyddiadau	24
Main findings	25
Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg	
Contacting the Welsh Language Commissioner	32

Crynodeb yw hwn o Adroddiad
5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
2012–2015.
Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein
wefan:

comisiynyddygybraeg.cymru

This is a summary of the Welsh Language
Commissioner's 5-year report
2012–2015.
The full report is available on our
website:

welshlanguagecommissioner.wales

Rhagair

2

Mae'n amserol bod yr adroddiad 5-mllynedd hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2016. Rydym hanner ffordd rhwng dau Gyfrifiad, ac er mwyn troi'r gostyngiad a welwyd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 yn gynnydd erbyn 2021, mae angen deall y rhesymau dros y gostyngiad ac adnabod y meysydd i adeiladu arnynt.

Mae cyfnod sefydlu Llywodraeth a Chynulliad newydd yn gyfle i'r gwleidyddion a'r gweision sifil edrych o ddifrif ar sut y gall polisi cyhoeddus gefnogi'r Gymraeg. Gwyddom ei bod yn fwiad gan y Llywodraeth ymgynghori ar strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg eleni. Er mwyn cyrraedd y nod polisi a chyflawni targedau, rhaid rhoi mesurau cadarn yn eu lle yn ogystal â buddsoddi a gweithredu'n bwrpasol.

Mae'r ffaith fod yna bellach bwyllgor newydd yn y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros graffu ar faterion sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn gam arwyddocaol ymlaen, yn ogystal â'r datblygiad pwysig o'i gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau eraill roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth ystyried gwahanol feysydd polisi.

Wrth i mi ysgrifennu'r geiriau hyn, ni ellir rhagweld yn iawn beth fydd effaith y penderfyniad refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd ar y Gymraeg. Dros y blynyddoedd fe welsom gyllid Ewropeaidd yn cael ei ddyfarnu i brosiectau oedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at hybu'r iaith a chynnal cymunedau Cymraeg, yn ogystal â'r hwb a roed i economi Cymru yn ehangach. Mae sefyllfa ieithoedd lleiafrifol ar draws y byd yn amrywio, wrth gwrs, â rhai yn ei chael hi'n anodd nofio yn erbyn y lli tra bo eraill fel y Fasgeg a'r Gatalaneg i weld yn ffynnu. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn un o'r ieithoedd hynny sy'n tyfu a ffynnu, mae'n hollbwysig bod fforwm rhyngwladol yn parhau i rannu syniadau ac arfer da â gwledydd a chymunedau ieithyddol eraill. Wrth i'r gwleidyddion gynllunio'r camau nesaf a'r cynllun

Foreword

3

It is timely that this 5-year report is published in the summer of 2016. We are at a half-way point between two Censuses, and it is critical to understand the reasons for the decline in the percentage of Welsh speakers between 2001 and 2011 in order to turn the tide and secure an increase by 2021.

The period of establishing a new Government and Assembly poses an opportunity for politicians and civil servants to take a closer look at how public policy can support the Welsh language. We know that the Government intends to consult on a new Welsh language strategy this year. To realise the policy aim and achieve targets, robust measures must be put in place as well as purposeful investment and action.

The fact that there is now a new committee in the Assembly responsible for scrutinising Welsh language matters is a significant step forward, as well as the requirement on all other Assembly committees to take the language into account when considering different policy areas.

As I write these words, it is impossible to predict the impact of the referendum decision to leave the European Union on the Welsh language. Over the years we have seen European funding awarded to projects contributing directly to the promotion of the language and supporting Welsh speaking communities, in addition to the boost given to the Welsh economy more generally. The situation of minority languages across the world varies, of course, with some struggling to swim against the tide, whilst others like Basque and Catalan appear to be thriving. To ensure that Welsh is one of the languages that grows and flourishes, it is vital that there is an international forum to share ideas and good practice with other linguistic communities and countries. As the politicians plan the next steps and the long-term strategy, they will need to ensure

hirdymor ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen iddynt sicrhau na fydd yr iaith Gymraeg ar ei cholled yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac y bydd y gefnogaeth iddi yn cynyddu yn hytrach na'n crebachu.

4

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, daeth yn amlwg i mi bod cyfoeth o dystiolaeth a data ar gael am agweddau penodol ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys data o ffynonellau cadarn fel y Cyfrifiad a'r Arolwg Defnydd Iaith a gynhaliom ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn dwyn statws Ystadegau Gwladol sy'n cydnabod dibynadwyedd a chadernid yr ymchwil. Ar yr un pryd, daeth yn amlwg bod bylchau mewn data cyson o ansawdd mewn rhai meysydd pwysig, er enghraifft am lwyddiant y gyfundrefn addysg i greu siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hynny'n arbennig o wir yn sectorau'r blynyddoedd cynnar, addysg bellach ac addysg uwch. Lle bo tystiolaeth a data yn bodoli, boed hynny gan lywodraethau, prifysgolion neu sefydliadau, ychydig iawn o ymdrech fu hyd yma i'w dwyn ynghyd. Mae'r cydlynu yma'n bwysig er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n datblygu polisi yn gweld y darlun cyflawn.

Cadarnhaodd yr Arolwg Defnydd Iaith mai addysg yw prif ffynhonnell creu siaradwyr Cymraeg. Roedd yn naturiol, felly, fy mod yn neilltuo cyfran helaeth o'r adroddiad i ganolbwyntio ar sut y mae addysg Gymraeg yn mynd i'r afael â'r her o sicrhau bod y twf yn nifer siaradwyr Cymraeg yn gwrthbwysu'r golled a wneir yn flynyddol. Mae'n ymddangos na fu cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y plant sy'n derbyn eu haddysg a gofal blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae bylchau sylweddol iawn yn y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd. Daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd fod dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o un cyfnod i'r nesaf yn parhau i fod yn broblem, a bod y broblem hon yn amlwg o un cyfnod allweddol i'r nesaf yn yr ysgol ac wrth i ddisgyblion drosglwyddo i addysg bellach ac uwch. Mae'n amlygu hefyd na fu cynnydd gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y plant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

that the Welsh language will not lose out, be that directly or indirectly, and that the support for it increases rather than weakens.

5

Preparing this report, it has become clear to me that there is a wealth of evidence and data available on specific aspects of the Welsh language. This includes robust data from sources such as the Census and the Language Use Survey we conducted and published in conjunction with the Welsh Government in November 2015. The Language Use Survey holds National Statistics status which recognises the reliability and robustness of the research. At the same time, it has also become apparent that there are gaps in consistent quality data in some important areas, for example the success of the education system in creating fluent Welsh speakers. This is particularly true in the early years, further and higher education sectors. Where evidence and data does exist, be that by Governments, universities or organisations, very little effort has been made so far to bring this information together. This coordination is critical in ensuring that those who develop policy see the complete picture.

The Language Use Survey confirmed that education is the main vehicle for creating Welsh speakers. It was natural, therefore, that I devoted a large portion of this report to focus on how education addresses the challenge of ensuring that the growth in the number of speakers offsets the annual loss. It seems that there has been no progress over the last few years in the number of children receiving early years education and care through the medium of Welsh, and there are very large gaps in the provision in some geographical areas. The report also concludes that progression in Welsh medium education from one stage to the next continues to be a problem, and this problem is evident from one key stage to the next in school and when pupils transfer to further and higher education. It also highlights the fact that there has been no real increase in recent years in the number of children and young people who are learning through the medium of Welsh. It is vital that the

Mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn cydio yn y materion yma er mwyn hyfforddi cenedlaethau newydd o bobl fydd yn hyderus i weithio yn broffesiynol yn y dyfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar y cyfleoedd sy'n bodoli i ddefnyddio'r Gymraeg, mewn cyd-destunau amrywiol ac mewn gweithgareddau dyddiol, a rhai rhesymau posibl pam bo siaradwyr Cymraeg yn manteisio ar y cyfleoedd hynny neu beidio. Hyderaf y bydd y dystiolaeth yma ar ddefnydd iaith o gymorth i sefydliadau a mudiadau sy'n ceisio darparu cyfleoedd effeithiol i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau cynnydd yn nefnydd yr iaith o ddydd i ddydd.

Wrth gyhoeddi'r adroddiad, hoffwn dalu teyrnged i'r holl unigolion hynny sydd wedi, ac sy'n parhau, i weithio'n ddiflino dros yr iaith ac sy'n cynnal y diwylliant Cymraeg ar lawr gwlad. Mae'n wir nad yw sefyllfa'r Gymraeg mor gryf ag y buasem yn dymuno iddi fod, ond nid oes gen i unrhyw amheuaeth y buasai ei sefyllfa heddiw yn llawer iawn mwy bregus heb ymdrechion a chyfraniad y bobl hyn.

Gydag arweiniad strategol clir gan y Llywodraeth, a chynllunio bwriadus tymor hir a gweithredu effeithiol, hyderaf y bydd modd gwireddu'r nod o greu Cymru lle bydd y Gymraeg yn ffynnu a lle bydd hi'n rhan gwbl naturiol o fywyd pob dydd, ym mhob rhan o'r wlad.

Melni Nowr

Awst 2016



Government tackles these matters in order to create future generations of people who are confident to work professionally through the medium of Welsh.

This report also looks at the opportunities that exist to use the Welsh language in various contexts and in daily activities, and some of the possible reasons why Welsh speakers take advantage of these opportunities or not. I trust this evidence will be of assistance to institutions and organisations that seek to create effective opportunities to use the Welsh language.

In publishing the report, I would like to pay tribute to all who have, and continue to, work tirelessly for the benefit of the Welsh language and who support the Welsh culture at grassroots level. It is fair to say the position of the language is not as strong as we would wish it to be, but I have no doubt that it would be in a far more vulnerable position without the efforts and contribution of these people.

With clear strategic leadership from the Government, and with careful long-term, planning and effective implementation, I trust that it will be possible to achieve the goal of creating a Wales where the Welsh language will flourish and where it will be a completely natural part of everyday life, in all parts of the country.

Melni Nowr

August 2016



Adroddiadau 5-mlynedd

Un o swyddogaethau'r Comisiynydd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw paratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefyllfa'r iaith Gymraeg bob pum mlynedd:

8

1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1), adran 5.

5 Cynhyrchu adroddiadau 5-mlynedd

- (1) Rhaid i'r Comisiynydd, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, lunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y cyfnod hwnnw.
- (2) Yn y Mesur hwn, cyfeirir at adroddiad o'r fath fel 'adroddiad 5-mlynedd'.
- (3) Os yr adroddiad cyntaf o'i fath i gael ei lunio ar ôl cyfrifiad yw adroddiad 5-mlynedd, rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn –
 - (a) adroddiad ar ganlyniadau'r cyfrifiad i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Gymraeg;
 - (b) asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.¹

Hwn yw adroddiad 5-mlynedd cyntaf Comisiynydd y Gymraeg.

Adroddiad 5-mlynedd 2012–15

Yn unol â gofynion y Mesur, cyfnod adrodd yr adroddiad 5-mlynedd cyntaf hwn yw 1 Ebrill 2012, sef y dyddiad y daeth pwerau Comisiynydd y Gymraeg i rym, hyd 31 Rhagfyr 2015. Bydd adroddiadau 5-mlynedd o hyn allan yn adrodd ar gyfnodau pum mlynedd llawn.

Mae sefyllfa'r Gymraeg yn cwmpasu ystod eang o agweddau amrywiol. Yn yr adroddiad hwn cynigir crynodeb o'r agweddau hynny sy'n ymddangos fwyaf arwyddocaol heddiw. Mae hynny'n cynnwys crynodeb o gyd-destun y Gymraeg yn 2015; dadansoddiad o sgiliau Gymraeg poblogaeth Cymru ar sail

5-year reports

One of the Commissioner's functions under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 is to prepare and publish a report on the position of the Welsh language every five years:

9

1 Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1), section 5.

5 Production of 5-year reports

- (1) The Commissioner must produce, in relation to each reporting period, a report on the position of the Welsh language in that period.
- (2) In this Measure, such a report is referred to as "a 5-year report".
- (3) If a 5-year report is the first such report to be produced after a census, the report must include the following matters –
 - (a) a report of the results of the census so far as they relate to the Welsh language;
 - (b) an assessment of the implications of those results for the position of the Welsh language.¹

This is the Welsh Language Commissioner's first 5-year report.

The 2012–15 5-year Report

In accordance with the requirements of the Measure, the reporting period for the first 5-year report is 1 April 2012, when the Welsh Language Commissioner's powers came into force, to 31 December 2015. Future 5-year reports will cover a complete five year period.

The position of the Welsh language covers a wide range of different aspects. This report summarises those aspects which appear most significant today. That includes a summary of the Welsh language context in 2015; an analysis of the Welsh language skills of the people of Wales based on the Office

canlyniadau Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol; dadansoddiad o lwyddiant ymdrechion i greu siaradwyr Cymraeg newydd; a dadansoddiad o'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg mewn rhai cyd-destunau penodol.

Y sail dystiolaeth

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, casglwyd ynghyd dystiolaeth o amrywiol ffynonellau er mwyn creu darlun o sefyllfa'r Gymraeg heddiw. Bydd gan eraill dystiolaeth bellach a fydd yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg. Yn hynny o beth, bwriedir i'r adroddiad hwn esgor ar drafodaeth ynghylch sefyllfa'r Gymraeg a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn iddi ffynnu i'r dyfodol.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan:
comisiynyddygyymraeg.cymru

10

for National Statistics' 2011 Census; an analysis of the success of efforts to create new Welsh speakers; and an analysis of the use of Welsh in some specific contexts.

The evidence base

In preparing the report, evidence was gathered from a variety of sources in order to paint a picture of the position of the Welsh language today. Others will have further evidence which will enhance our understanding of the position of the Welsh language. In that respect, this report aims to stimulate a discussion on the position of the Welsh language and the action needed to ensure its future prosperity.

The full report is available on our website:
welshlanguagecommissioner.wales

11

Crynodeb

12

Mae llawer o ieithoedd lleiafrifol y byd heddiw mewn sefyllfa fregus. Yn ôl UNESCO, bydd hanner y chwe mil a mwy o ieithoedd a siaredir yn y byd wedi diflannu erbyn diwedd y ganrif hon, wrth i gyfathrebu ar draws ffiniau daearyddol arwain at gynydd mewn defnydd o rai ieithoedd penodol ar draul ieithoedd llai.

Er hynny, gellir dadlau bod rhai agweddau ar gyd-destun y Gymraeg heddiw yn cynnig cyfle i gynyddu'r defnydd o'r iaith. Er enghraifft, o ran iaith llywodraethiant, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o waith a gweinyddiaeth y sefydliad sydd bellach yn gyfrifol am ddeddfu ar y Gymraeg, sef ein Cynulliad Cenedlaethol. Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac mae nifer cynyddol o sefydliadau o dan ddyletswydd i hwyluso cyfleoedd i bobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar yr un pryd, mae agweddau eraill ar gyd-destun y Gymraeg â photensial i filwrio yn erbyn y cynnydd yn ei defnydd. Un o'r pennaf ohonynt efallai yw newidiadau cymdeithasol sydd wedi arwain at golli rhai peuoedd fu'n cynnal a chefnogi defnydd y Gymraeg o fewn cymunedau. Her arall yw symudiad siaradwyr Cymraeg, yn arbennig pobl ifanc, o gadarnleoedd y Gymraeg ac ar yr un pryd fewnfudo pobl ddi-Gymraeg i'r cadarnleoedd hynny. Nodwedd amlwg arall o fywyd yng Nghymru heddiw yw'r defnydd sylweddol o dechnoleg i gyfathrebu ag eraill ac i ymgymryd â gweithgareddau dydd i ddydd. Tra bo potensial i dechnoleg hwyluso cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid cydnabod mai'r Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir yn bennaf ar gyfryngau digidol yng Nghymru heddiw.

Summary

13

Many of the world's minority languages are in a vulnerable position at present. UNESCO estimates that half of the 6,000 plus languages spoken in the world today will have disappeared by the end of this century, as communication across geographical borders leads to increased use of some specific languages at the expense of others.

However, it could be argued that certain aspects of the Welsh language context today provide an opportunity to increase the use made of the language. For example, in terms of the language of governance, the Welsh language is a fundamental part of the work and administration of the organisation now responsible for legislating on the Welsh language, namely our National Assembly. Today, the Welsh language has official status in Wales and an increasing number of organisations have a duty to facilitate opportunities for people to live their lives through the medium of Welsh.

At the same time, there are other aspects of the Welsh language context which have the potential to hinder its increased use. One of the most prominent is social change which has led to the loss of some domains which have supported and sustained the use of Welsh within our communities. Another challenge is the migration of Welsh speakers out of Welsh-speaking heartlands, especially young people, together with in-migration of non-Welsh speakers into those areas. Another prominent feature of life in Wales today is the significant use of technology to communicate with others and engage in day-to-day activities. Whilst technology has the potential to facilitate communication through the medium of Welsh, we must acknowledge that English is the main language used on digital media in Wales today.

Wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y Gymraeg, rhaid ystyried y cyfleoedd a'r heriau hyn a cheisio sicrhau bod y newidiadau cymdeithasol ac economaidd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na llesteirio'i defnydd.

Dyna'r cyd-destun yn fras ac mae Adran 4 yr adroddiad yn manylu ar hynny. Ond beth felly yw sefyllfa'r Gymraeg heddiw?

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddwy nodwedd ar sefyllfa'r Gymraeg, sef nifer y bobl sy'n gallu ei siarad a'r defnydd a wneir ohoni. Mae'r cyfrifiad cenedlaethol a gynhelir bob deng mlynedd yn ffynhonnell gadarn o ddata ynghylch nifer y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg. Wrth ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn Rhan 2 yr adroddiad, gwelir bod rhai datblygiadau cadarnhaol. Efallai mai'r pennaf o'r rheini yw'r ganran uchel o bobl ifanc yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ôl y Cyfrifiad mae 40 y cant o blant 5–15 mlwydd oed yn gallu siarad Cymraeg, dros ddwbl y ganran fedrai wneud hynny ddeng mlynedd ar hugain ynghynt. Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd cynnydd arwyddocaol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sydd hefyd yn gallu ysgrifennu a darllen Cymraeg. Mewn oes lle mae cyfathrebu ysgrifenedig drwy gyfryngau digidol yn weithgaredd dyddiol cynyddol boblogaidd, er enghraifft wrth gymdeithasu neu yn y gweithle, gellir dadlau bod y cynnydd mewn sgiliau ysgrifennu a darllen Cymraeg yn ddatblygiad arwyddocaol.

Ond dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 hefyd rai tueddiadau sy'n peri gofid, yn enwedig o ran nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Er gwaetha'r cynnydd sylweddol o dros 74,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991–2001, bu gostyngiad o dros 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001–2011. Wrth edrych ar y canlyniadau yn ddaearyddol, yn 2001 roedd 53 o gymunedau lle roedd dros 70 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2011, 39 cymuned o'r fath oedd yng Nghymru. Gan dderbyn y farn gyffredinol fod cynnal cymunedau lle mae mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn hollbwysig i ffyniant yr iaith, mae angen cymryd camau breision i wrydroi'r tueddiad hwn.

In planning for the future of the Welsh language, we must consider these opportunities and challenges and seek to ensure that social and economic changes facilitate the use of Welsh rather than prevent it.

That is the context, which is discussed further in Section 4. So, what is the position of the Welsh language today?

This report focuses on two elements of the position of the Welsh language, namely the number of speakers and the use of the language. The census which is undertaken every ten years is a robust source of data on the number of people in Wales who can speak Welsh. In analysing the Census 2011 results in Part 2 of this report, we can see some relatively positive developments. Perhaps the main one being the high percentage of young people in Wales who are able to speak Welsh. Forty per cent of children aged 5–15 are able to speak Welsh, according to the 2011 Census, which is more than double the percentage who could do so 30 years earlier. During the same period, we have seen a significant increase in the percentage of Welsh speakers who are also able to write and read Welsh. In an age where written communication via digital media is an increasingly popular daily activity, for example when socialising or in the workplace, it could be argued that the increase in Welsh reading and writing skills is a significant development.

But the Census 2011 results also highlight some worrying trends, especially in the number and percentage of Welsh speakers in Wales. Whilst there was a very significant increase of over 74,000 in the number of Welsh speakers from 1991–2001, there was a reduction of over 20,000 in the number of Welsh speakers from 2001–2011. Looking at the results geographically, in 2001 there were 53 communities where over 70 per cent of the population were able to speak Welsh. By 2011, there were only 39 such communities in Wales. Accepting the general consensus that sustaining these communities where the majority of the population is able to speak Welsh is crucial to the prosperity of the language, major strides will have to be taken in order to reverse this trend.

Mae dros 80 y cant o'r plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg, ond pump y cant yn unig o blant 3–4 blwydd oed yng Nghymru sy'n byw ar aelwydydd o'r fath. Mae canran y plant sy'n gallu siarad Cymraeg lawer yn is mewn aelwydydd lle mai un oedolyn yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg, neu lle nad oes oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae 80 y cant o bobl a ddysgodd y Gymraeg gartref yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Ond yn yr ysgol mae plant a phobl ifanc yn dueddol o ddysgu'r Gymraeg heddiw, ac nid yw cyfraddau rhuglder ymysg y bobl hynny mor uchel ag ydyw ymysg y rheini wnaeth ddysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn defnyddio'r Gymraeg lawer amlach na'r rheini nad ydynt yn rhugl, felly y mae arwyddocâd sylweddol i'r shifft o'r cartref i'r ysgol fel y brif ffynhonnell o siaradwyr Cymraeg.

Wedi dweud hynny, mae 20,000 yn fwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru heddiw nag yn 1971 ac, heb os, y gyfundrefn addysg yng Nghymru sy'n bennaf gyfrifol am hynny. Mae'n anodd dadansoddi gwir lwyddiant y gyfundrefn addysg yn cynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n hyderus i ddefnyddio'r iaith bob dydd. Mae bylchau data o ran y Gymraeg mewn addysg ac anghysondeb hefyd mewn data ynghylch rhai agweddau penodol. Er enghraifft, ni wyddys yn siŵr faint o blant 3–4 blwydd oed sy'n derbyn addysg a gofal meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr neu'n rhannol.

Er hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos rhai tueddiadau pendant. Mae nifer sylweddol o blant ifanc yn derbyn eu gofal a'u haddysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Mudiad Meithrin heddiw, ond ni welwyd twf yn y nifer dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer sylweddol o blant hefyd yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ond eto ni welwyd cynnydd gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny er gwaethaf datblygiadau arwyddocaol megis cyflwyno Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Nodweddir y gyfundrefn

More than 80 per cent of children living in households where two adults are able to speak Welsh are able to speak Welsh themselves, but only five per cent of 3 and 4 year olds in Wales live in such households. The percentage of children who are able to speak Welsh is much lower in households where only one adult is able to speak Welsh, or where no adults speak Welsh.

80 per cent of those who learnt to speak Welsh at home consider themselves to be fluent Welsh speakers. But it is in school that children and young people tend to learn to speak Welsh today and fluency rates amongst them are not as high as they are amongst those who learnt Welsh at home. Fluent Welsh speakers use Welsh far more than those who are not fluent and therefore the shift from the home to school as the main source of Welsh speakers becomes very significant.

Having said that, there are 20,000 more Welsh speakers in Wales today than in 1971 and undoubtedly the education system in Wales is mainly responsible for that. It is difficult to analyse how successful the education system has actually been in producing more fluent Welsh speakers who have the confidence to use the language every day. There are gaps in the data about the Welsh language in education along with inconsistent data for certain aspects. For example, we cannot be certain how many 3 and 4 year olds receive nursery care and education through the medium of Welsh, in part or in full.

However, the evidence which is available shows some clear trends. A significant number of young children receive their care and education from Mudiad Meithrin today, through the medium of Welsh, but there has been no growth in terms of numbers in recent years. A significant number of children also receive their education through the medium of Welsh in primary and secondary schools, but again we have not seen any actual increase in recent years, despite significant developments such as the introduction of the Welsh Government's Welsh-medium Education Strategy. The Welsh medium education system is characterised by the lack of progression from one phase

addysg Gymraeg gan ddiffyg dilyniant o un cyfnod i'r nesaf, rhwng y cyfnodau allweddol mewn ysgolion ac yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo i addysg bellach ac uwch. Gwnaed ymdrechion i fynd i'r afael â hynny dros y blynyddoedd diwethaf a gwelwyd peth cynnydd. Serch hynny, mae canran y myfyrwyr sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch yn parhau i fod yn isel iawn o gymharu â'r ganran mewn ysgolion.

Gwelir darlun tebyg wrth ystyried nifer yr oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg. Bu cynnydd sylweddol am gyfnod ond dengys y data sydd ar gael ostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf yn y nifer sy'n cofrestru ar gyrsiau a'r nifer sy'n sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion.

Mae Rhan 3 yr adroddiad yn ystyried rhai ffactorau a allai fod wedi llesteirio ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Ymysg y ffactorau hynny y mae diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yn rhai o brif bolisiâu a rhaglenni addysg Cymru; diffyg cynnydd yn isadeiledd addysg cyfrwng Cymraeg; diffyg gwybodaeth hygyrch i bobl ac yn enwedig i rieni ynghylch manteision dysgu'r Gymraeg; a heriau wrth geisio sicrhau adnoddau digonol ac aelodau staff i ddarparu a chefnogi addysg Gymraeg.

Yr agwedd arall ar sefyllfa'r Gymraeg sy'n derbyn sylw yw'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Dadansoddir yn Rhan 4 yr adroddiad y wybodaeth a'r data sydd ar gael ynghylch defnydd y Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau ac wrth ymgymryd â gweithgareddau dyddiol arferol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg heddiw, yn y cartref, yn yr ysgol, yn y gweithle ac yn y gymuned. Mae 13 y cant o bobl Cymru yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, canran sy'n uwch na chanran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

to the next, between the key stages at school and especially as pupils progress to further and higher education. Efforts have been made to address that in recent years and there has been some progress. However, the percentage of students who receive their education through the medium of Welsh in further and higher education continues to be very low compared with the percentage in schools.

A similar picture emerges when we look at the number of adults learning Welsh. There was a significant increase over a period but the data available shows a reduction in recent years in the number enrolling on courses and the number sitting Welsh for Adults exams.

Part 3 of this report examines some of the factors which may have hindered efforts to increase the number of Welsh speakers in recent years. Those factors include a lack of support for the Welsh language within some of the main education policies and programmes; the lack of progress in terms of the infrastructure of Welsh medium education; the lack of accessible information for people, especially parents, on the benefits of learning Welsh; and the challenges faced in seeking to ensure sufficient staffing and resources to provide and support Welsh medium education.

The other aspect of the position of the Welsh language which is examined in this report is the use of Welsh. Information and data available on the use of Welsh in various contexts and in undertaking routine day-to-day activities are analysed in Part 4. In general, the evidence available suggests that there is significant use of Welsh today, at home, at school, in the workplace and within the community. Thirteen per cent of the Welsh population use Welsh every day, which is higher than the percentage of fluent Welsh speakers.

Ar yr un pryd, rhaid cydnabod mai anghyson yw'r defnydd. Wrth geisio dadansoddi'r rhesymau dros hynny, gwelir bod ffactorau seicolegol ac ymarferol ar waith sy'n dylanwadu ar arferion ieithyddol siaradwyr Cymraeg. Mae agweddau tuag at y Gymraeg ymysg poblogaeth Cymru yn gadarnhaol iawn, gyda 85 y cant o bobl yn credu bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohoni ac 86 y cant yn teimlo bod y Gymraeg yn bwysig i ddiwylliant Cymru. Mae'n rhesymol tybio fod agwedd ffafriol tuag at y Gymraeg yn rhagofyniad ar gyfer ei defnyddio a bod y canlyniadau hyn felly'n gadarnhaol iawn yng nghyd-destun y defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol. Ond ffactor seicolegol arall sy'n dylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yw hyder ac mae tystiolaeth bod diffyg hyder yn rhwystro carfan sylweddol o siaradwyr Cymraeg rhag ei defnyddio.

Mae ffactorau ymarferol ar waith sydd hefyd yn effeithio ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg. Er enghraifft, mae anghysondeb yn y cyfleoedd sydd ar gael i'w defnyddio mewn agweddau gwahanol ar fywyd, er enghraifft ym myd addysg, yn y cartref ac wrth ddefnyddio gwasanaethau neu ddefnyddio'r cyfryngau. Lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gwelir bod hyfedredd ieithyddol unigolion yn dylanwadu ar eu defnydd ohoni. Gall digonolrwydd yr adnoddau geirfaol sydd ar gael i hwyluso cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn greiddiol i'w defnydd. Mewn byd sy'n gynyddol ddibynnol ar dechnoleg, gwelir bod gallu systemau a meddalwedd TG i gefnogi a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ddylanwad sylweddol ar y defnydd a wneir ohoni.

Amrywiol, felly, yw sefyllfa'r Gymraeg heddiw. Ar sail y dystiolaeth am nifer siaradwyr y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni, mae'n debyg y gellid casglu mai aros yn ei hunfan a wnaeth y Gymraeg yn gyffredinol wrth edrych nôl dros y degawdau diwethaf. Yn fwy diweddar, gwelwyd gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae newidiadau cymdeithasol wedi arwain at golli cymunedau lle mai'r Gymraeg oedd y brif iaith. Ar yr un pryd, mae rhai datblygiadau wedi creu cyfleoedd newydd i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft adnoddau geirfaol a thechnolegol.

At the same time, we must acknowledge that the extent to which the Welsh language is used is inconsistent. In seeking to analyse the reasons for that, we can see that there are psychological and practical factors at play which influence the linguistic habits of Welsh speakers. Attitudes towards the Welsh language amongst the population of Wales are very positive, with 85 per cent believing that the Welsh language is something to be proud of and 86 per cent feeling that the Welsh language is important to Welsh culture. It is reasonable to assume that a favourable attitude towards the Welsh language is a prerequisite for the use of Welsh and that these results are therefore very positive in terms of the future use of Welsh. But another psychological factor which influences the use of Welsh is confidence and there is evidence that a lack of confidence prevents the use of Welsh amongst a significant number of Welsh speakers.

There are practical factors at play which also impact the use of Welsh. For example, there is inconsistency in terms of the opportunities available to use Welsh in different aspects of life, for example in education, at home, in using services or the media. Where there are opportunities available to use Welsh, we see that an individual's language proficiency influences use as well as the extent to which there are sufficient linguistic resources available to facilitate communication in Welsh. In a world which is increasingly reliant on technology, the capacity of IT systems and software to support and facilitate the use of Welsh is a major influence on language use.

The position of the Welsh language today is therefore varied. Based on the evidence of the number of Welsh speakers and the use of Welsh, it seems fair to conclude that in general the Welsh language has remained static to a certain extent over the past few decades. More recently, the number and percentage of Welsh speakers in Wales has decreased and social changes have led to losing communities where Welsh was the main language. At the same time, there are developments which have created new opportunities to communicate in Welsh, for example in terms of linguistic resources and technology.

Heb os, mae amodau digon ffafriol yn eu lle i'r Gymraeg ffynnu, er enghraifft wrth ystyried agweddau tuag at yr iaith a'r strwythurau gweinyddol a'r isadeiledd cyfreithiol sydd yn eu lle i'w chynnal a'i chefnogi. Ond ymddengys nad yw'r amodau hynny ar eu pen eu hunain wedi bod yn ddigonol i sicrhau cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd angen gweledigaeth uchelgeisiol ac ymyrraeth gadarn i wyrdroi tueddiadau diweddar ac i sbarduno twf dros y blynyddoedd nesaf.

Undoubtedly, the conditions seem favourable enough for the Welsh language to flourish, for example in considering attitudes towards the language and the administrative structures and legal infrastructure in place to sustain and support the language. But it appears that those conditions alone have not secured growth in recent years. An ambitious vision and firm intervention will be needed to reverse recent trends and instigate progress in the coming years.

Prif ganfyddiadau

24

Canlyniadau Cyfrifiad 2011

Wrth baratoi'r adroddiad hwn cymharwyd canlyniadau Cyfrifiad 2011 â chanlyniadau cyfrifiadau blaenorol er mwyn adnabod tueddiadau dros amser yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Yn ôl Cyfrifiad 2011, 19 y cant o boblogaeth Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 562,000 o bobl. Roedd 20.8 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001. Yn ôl Cyfrifiad 2011, 15 y cant o'r boblogaeth sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.
- Er 1981, bu cynnydd parhaus yng nghanran y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg ond ymddengys bod cryn dipyn ohonynt yn colli eu sgiliau Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.
- Yn ddaearyddol, bu'r gostyngiad mwyaf yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny sydd â'r crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg. Gwynedd (65 y cant) ac Ynys Môn (57 y cant) yw'r unig siroedd yng Nghymru lle mae mwyafrif y boblogaeth breswyl yn medru siarad Cymraeg. Sir Gaerfyrddin yw'r sir sydd â'r nifer uchaf o bobl sy'n medru siarad Cymraeg (78,000).
- Mae nifer y cymunedau sydd â 70 y cant a mwy o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt wedi crebachu er 2001. Roedd 53 cymuned o'r fath yn 2001; 39 sydd yna bellach.
- Cyflogir y niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg ym meysydd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (89,000). Amaethyddiaeth, egni a dŵr yw'r diwydiannau sydd â'r ganran uchaf o weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (29.5 y cant).

Main findings

25

2011 Census results

In compiling this report the results of the 2011 Census were compared with the results of previous censuses in order to identify trends in the number and percentage of Welsh speakers in Wales over time. These are the main findings:

- According to the 2011 Census, 19 per cent of the population of Wales can speak Welsh, a total of 562,000 people. According to the 2001 Census, 20.8 per cent of the population could speak Welsh. According to the 2011 Census, 15 per cent of the population can speak, read and write Welsh.
 - Since 1981, there has been a sustained increase in the percentage of children and young people able to speak Welsh but it appears that a significant number of them lose their Welsh language skills after leaving school.
 - Geographically, the largest reduction in the percentage of Welsh speakers has been seen in those local authority areas with the highest concentration of Welsh speakers. Gwynedd (65 per cent) and Anglesey (57 per cent) are the only counties in Wales where the majority of the resident population can speak Welsh. Carmarthenshire has the highest number of Welsh speakers (78,000).
 - The number of communities with 70 per cent plus Welsh speakers living within them has fallen since 2001. There were 53 such communities in 2001; there are now only 39 of them.
 - The highest number of Welsh speakers are employed in public administration, education and health (89,000). Agriculture, energy and water represent the industries with the highest percentage of employees able to speak Welsh (29.5 per cent).
-

-
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, 73 y cant o boblogaeth Cymru a anwyd yng Nghymru. O'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru, roedd wyth y cant yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
 - Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 88 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi'u geni yng Nghymru, a 12 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi'u geni'r tu allan i Gymru. Roedd y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg a anwyd y tu allan i Gymru yn sir y Fflint a Phowys (29 y cant).

-
- According to the 2011 Census, 73 per cent of the population of Wales were born here in Wales. Of those born outside Wales, eight per cent said that they could speak Welsh.
 - According to the 2011 Census, 88 per cent of Welsh speakers were born in Wales, and 12 per cent of Welsh speakers were born outside Wales. The highest percentages of Welsh speakers born outside Wales were found in Flintshire and Powys (29 per cent).
-

Creu siaradwyr Cymraeg

Nodir yn yr adroddiad dystiolaeth ynghylch llwyddiant amrywiol ddulliau o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Rhoddir sylw i drosglwyddiad iaith yn y cartref. Yn ogystal ystyrir y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch llwyddiant y gyfundrefn addysg i greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae hynny'n cynnwys y ddarpariaeth blyneddodd cynnar, addysg statudol ac addysg ôl-16. Cynigir hefyd grynodedd o'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch Cymraeg i Oedolion. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael nodir rhai heriau sy'n wynebu addysg cyfrwng Cymraeg heddiw yn yr amrywiol gyfnodau hynny.

- Mae cydberthynas rhwng pa bryd mae unigolyn yn caffael neu'n dysgu'r Gymraeg a pha mor rhugl fydd yr unigolyn hwnnw. Yn gyffredinol, y cynharaf y bydd rhywun yn caffael neu'n dysgu'r Gymraeg, y mwyaf tebygol y bydd yr unigolyn yn dod yn rhugl yn y Gymraeg.
- Addysg yw prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg heddiw, ond o ystyried y gyfradd uchel o ruglder ymysg y rheini sydd wedi dysgu'r Gymraeg gartref, mae sicrhau trosglwyddo iaith yn y cartref yn parhau'n allweddol i ffyniant y Gymraeg. Mae lle i wella'r cyfraddau trosglwyddo iaith yn y cartref, yn enwedig mewn teuluoedd lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg. Law yn llaw â hynny, ymddengys bod dysgu'r Gymraeg mor gynnar â phosib ym mywydau plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, sef yn ystod y Cyfnod Sylfaen, yn arwain at gyfraddau uchel o ruglder ymysg y dysgwyr hynny.
- Mae diffyg data cyson a chyflawn am lwyddiant y gyfundrefn addysg i greu siaradwyr Cymraeg. Mae hynny'n arbennig o amlwg o fewn sectorau'r blyneddodd cynnar, addysg bellach ac addysg uwch.
- Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ymddengys na fu cynnydd arwyddocaol dros y blyneddodd diwethaf yn y niferoedd sy'n derbyn addysg neu ofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymddengys hefyd fod diffyg dilyniant amlwg mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, rhwng y cyfnodau allweddol mewn ysgolion ac yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo i addysg bellach ac uwch.

Creating Welsh speakers

The report contains evidence of the success of various methods of creating new Welsh speakers. That includes evidence of language transmission within the home. Evidence is also included on the success of the education system in creating new Welsh speakers, including early years provision, statutory education and post 16 education. A summary of the evidence available about Welsh for Adults is provided also. Some of the challenges facing Welsh medium education today within those various stages are highlighted, based on the evidence available.

- There is a relationship between when an individual acquires or learns Welsh and how fluent that individual will be. In general, the sooner someone acquires or learns Welsh, the greater the likelihood that they will become fluent in Welsh.
- Education is the main source for Welsh speakers today, but considering the high fluency rate amongst those who have learnt Welsh at home, language transmission at home continues to be crucial to the prosperity of the Welsh language. There is room to improve language transmission rates at home, especially within families where one adult speaks Welsh. Together with that, it appears that learning Welsh as early as possible for children who don't speak Welsh at home, during the Foundation Phase, leads to higher fluency rates amongst those learners.
- There is a lack of consistent and comprehensive data on the success of the education system in producing Welsh speakers. That is particularly evident within the early years and within further and higher education.
- Based on the evidence available, it appears that there has not been a significant increase in the numbers receiving education or care through the medium of Welsh in recent years. It appears also that there is a clear lack of progression in Welsh medium learning, between key stages in schools and especially as pupils move on to further and higher education.

Defnyddio'r Gymraeg

Yn ogystal â chreu siaradwyr Cymraeg newydd, yr amcan craidd arall ar gyfer y Gymraeg wrth edrych tua'r dyfodol yw cynyddu ei defnydd. Yn y rhan hon o'r adroddiad cyflwynir tystiolaeth ynghylch y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol agweddau ar fywyd ac ystyrir rhai rhesymau posib dros ddefnyddio a diffyg defnyddio'r Gymraeg.

30

- Mae tystiolaeth ymchwil yn gyson yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg yng Nghymru a dymuniad clir ymysg siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae rhai arwyddion cadarnhaol fod defnydd sylweddol o'r Gymraeg heddiw. Er enghraifft, mae 13 y cant o holl boblogaeth Cymru (361,000) yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, sydd yn uwch na chanran y boblogaeth sy'n rhugl yn y Gymraeg.
- Mae technoleg yn newid y modd y mae pobl yn cyfathrebu â'i gilydd, er enghraifft yn y cartref, yn y gweithle ac yn gymdeithasol, gan arwain at fwy o gyfathrebu drwy ddulliau ysgrifenedig. Mae gan gyfradd uchel iawn o siaradwyr Cymraeg rhugl sgiliau ysgrifenedig o safon uchel, ac felly hefyd gyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Gall hynny hwyluso cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol, os bydd y dechnoleg ar gael a fydd yn caniatáu defnyddio'r Gymraeg.
- Mae tystiolaeth yn dangos nad yw defnydd unigolion o'r Gymraeg bob amser yn adlewyrchu'r dymuniad clir i'w defnyddio. Awgryma hynny fod ffactorau eraill ar waith sy'n rhwystro defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg. Ymddengys bod y ffactorau ymarferol a seicolegol sy'n dylanwadu ar ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys: y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg; isadeiledd y Gymraeg a pha mor hygyrch yw'r Gymraeg i'w defnyddwyr; digonolrwydd sgiliau Cymraeg unigolion a'r hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny.

Use of Welsh

Alongside creating new Welsh speakers, the other core aim for the future of the Welsh language is to increase its use. In this section of the report evidence is presented on the use of the Welsh language within various contexts and consideration is given to some of the possible reasons for the use and non-use of Welsh.

31

- Research evidence constantly shows very positive attitudes towards the Welsh language in Wales and a clear desire amongst Welsh speakers to use the language.
 - There are some positive signs of significant use of Welsh today. For example, 13 per cent of the Welsh population (361,000) use Welsh every day, which is higher than the percentage of fluent Welsh speakers.
 - Technology is changing the way in which people communicate, for example at home, in the workplace and socially, leading to more written interaction. A very high proportion of fluent Welsh speakers have a high standard of written skills, as well as a significant proportion of Welsh speakers who are not fluent. That may facilitate communication through the medium of Welsh in the future, if the technology is available which allows the use of Welsh.
 - Evidence shows that an individual's use of Welsh does not always reflect a clear desire to use the language. This suggests that there are other factors at play which prevent the use of Welsh by Welsh speakers. It appears that the practical and psychological factors which influence the use of Welsh include: the opportunities available to use Welsh; the infrastructure of the Welsh language and how accessible it is to users; the sufficiency of individuals' Welsh language skills and the confidence to use those skills.
-

Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

Contacting the Welsh Language Commissioner

32

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y
Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales

Correspondence welcomed
in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



**Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner**